

## Tasg 1

(Heriol, sbardun 2)

Darllenwch hanes cefndir Penyberth a gwrandewch ar y gân 'Tân yn Llŷn'.

Nid **tân go iawn** yn unig sydd o dan sylw yn y gân, ond **tân ffigurol** hefyd. Trafodwch y cwestiynau canlynol fel grŵp neu â phartner:

1. Dros ba bethau mae'r gytgan eisiau i ni fod yn frwd? Ydych chi'n teimlo'n frwd dros unrhyw un/rai o'r pethau hyn? Pam? Pam lai?
2. Am beth mae'r pennill cyntaf yn sôn? Pa dystiolaeth sydd yn yr erthygl 'Penyberth' sy'n profi bod Saunders Lewis, Lewis Valentine a D.J. Williams wedi cynnau 'Tân oedd yn gyffro drwy bob lle'?
3. Beth yw union neges yr ail bennill? Dewiswch rhwng y canlynol:
  - a) Mae pawb wedi anghofio am y tân yn Llŷn.
  - b) Mae'r tân yn Llŷn yn dal i ysbrydoli Cymry heddiw.
  - c) Mae pobl yn dal i gofio am y tân yn Llŷn.
4. Oes neges obeithiol yn y trydydd pennill? Eglurwch eich ateb gan ddyfynnu o'r pennill.